



Vale School Governors' Association

Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

and Governor Support Unit

Cylchlythyr

Gair gan y Cadeirydd

Roeddwn i yn Llundain ddoe ar gyfer cyfarfod, a byddaf yn ceisio gwneud rhywbeth diwylliannol tra fy mod i yn y brifddinas i wneud bywyd yn fwy diddorol. Ddoe bûm yn ymweld ag arddangosfa hyfryd yn y Llyfrgell Brydeinig ar fywyd ac etifeddiaeth Alexander Fawr.

I mi, roedd hyn yn cynrychioli enghraifft ardderchog o'r agwedd trawsbynciol sy'n cael ei fabwysiadu gan yr athrawon yn ein hysgolion wrth ddatblygu gweithrediad y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Roedd yr arddangosfa yn fy nysgu i am yr Alexander hanesyddol, a oedd yn byw yn y bedwaredd ganrif Cyn y Cyfnod Cyffredin, gyda mapiau ac amserlenni o'i fywyd a'i goncwestau. Mae hynny'n amlwg yn ymdrin â Hanes a Daearyddiaeth, fodd bynnag, cefais fy synnu ar sut y priodolwyd enwogrwydd ac enw da Alexander gan Gristnogaeth, Islam, Zoroastriaeth ac Iddewiaeth - yn bendant Addysg Grefyddol.

Yna ceir yr etifeddiaeth lenyddol aruthrol wrth i lenorion addurno ac ychwanegu at y mythau a'r chwedlau amdano. Roedd hon yn arddangosfa gan y Llyfrgell Brydeinig, roedd yn hynod ddiddorol edrych ar enghreifftiau o lyfrau am Alexander a'i gampau gyda darluniau moethus yn cwmpasu dros ddwy fil o flynyddoedd. Gwnaeth comig Superman o'r 1980au argraff arbennig arnaf i gydag Alexander fel

dihiryn ailymgnawdoledig yn herwgipio arweinwyr y byd gan gynnwys ein Prif Weinidog ein hunain, Margaret Thatcher. Llenyddiaeth a Gwleidyddiaeth wedi'u cynnwys yn dda.

Un o gredoau canolog Cwricwlwm i Gymru yw datblygiad cwricwlwm sy'n addas ar gyfer pob ysgol, yn ei bro, gan edrych ar beth mae hynny'n ei olygu yng nghyd-destun Cymru, y DU neu'r Byd. Mae hyn yn her i'n hathrawon, ond dydyn nhw ddim yn gweithio mewn gwactod, ac maen nhw angen yr holl help y gallan nhw ei gael.

Dyma ble gallwch chi fel Llywodraethwyr chwarae rôl bwysig. Rydych chi'n rhan o'r gymuned o fewn ac o gwmpas yr ysgol. Bydd rhai ohonoch chi'n arbenigwyr hanes lleol, eraill yn gallu tynnu sylw at hanes naturiol yr ardal neu'r datblygiadau amaethyddol, diwydiannol a masnachol lleol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod sut mae'r cwricwlwm yn cael ei gyflwyno yn eich ysgol a meddylwch yn greadigol am sut y gallwch gyfrannu at wneud cwricwlwm eich ysgol mor wych ag etifeddiaeth Alexander.

Dr Martin Price
Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr
Ysgolion y Fro ac Is-gadeirydd y
Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd
Gatholig Sant Richard Gwyn

Rhifyn 54 Tymor Gwanwyn 2023

Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Manylion cyswllt:

John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Janine Hoare

Cynorthwydd Clerigol
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820
E-bost: JHoare@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA
a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,
Y Barri CF63 4RU

Crynodeb Ysgol Tymhorol: Defnydd Posibl

Mae Consortiwm Canolbarth y De (CSC) wedi cyflwyno adroddiadau Cryno Ysgol Tymhorol (TSS) ac mae'r canlynol yn rhoi cyngor ar eu defnydd posibl.

Gellid defnyddio'r Crynodeb Ysgol Tymhorol (CYT):

- Fel pwynt trafod mewn cyfarfodydd y corff llywodraethu llawn er mwyn cael trosolwg o gynnydd blaenoriaethau'r ysgol a'r gefnogaeth a ddarperir gan Gonsortiwym Canolbarth y De.
- Rhoi her a chefnogaeth i'r pennaeth a'r gwasanaethau a gomisiynir o'r cynnydd a'r gefnogaeth.
- Cefnogi ystyriaeth fanylach mewn cyfarfod is-bwyllgor safonau/cwricwlwm i sicrhau bod y cynnydd fel y dylai fod, a bod cefnogaeth wedi'i dargedu'n briodol ac amserol.

LLINELLAU POSIBL O HOLI I GEFNOGI EICH PROSESAU

1. Categori Cymorth yr Ysgol

- A ydych yn ymwybodol o gategori cymorth yr ysgol?
- Os mewn monitro uwch, pa gefnogaeth / monitro ychwanegol mae'r ysgol yn eu cael a beth yw'r effaith?

2. Effeithiolrwydd Gweithgareddau Gwerthuso

- A ydych yn ymwybodol o sefyllfa'r ysgol o ran hunan-werthuso? Pa mor dda ydych chi fel corff llywodraethu'n cymryd rhan mewn prosesau hunan-werthuso?
- Pa mor effeithiol yw prosesau hunan-werthuso'r ysgol? Sut mae gwybod?

3. Blaenoriaethau'r Ysgol

- A yw blaenoriaethau'r ysgol ar y trywydd cywir? Os nad, ydych chi'n gwybod pam?
- Pa lefel o gefnogaeth mae'r ysgol yn ei derbyn gan Gonsortiwym Canolbarth y De? Pan fo hyn yn 'uchel' neu'n 'gymedrol', beth yw effaith y gefnogaeth hon? A yw'r ysgol yn derbyn cefnogaeth gan unrhyw ysgol neu sefydliad allanol arall i gefnogi unrhyw flaenoriaethau?
- Sut mae'r dyfarniadau am gynnydd ar flaenoriaethau cynllun datblygu ysgol (CDY) yn cymharu â'ch monitro eich hun o gyfarfodydd llywodraethwyr / safonau neu bwyllgor cwricwlwm / adroddiadau pennaeth?
- Oeddech chi'n ymwybodol o unrhyw flaenoriaethau lle mae cynnydd 'heb fod ar y trywydd iawn'? Pa gymorth ychwanegol sydd ei angen i sicrhau bod cynnydd yn erbyn y flaenoriaeth yn cael ei wneud?
- Pa mor dda mae'r term cynnydd yn cysylltu â'r gweithgareddau a'r gweithredoedd o fewn y CDY? A yw'r cyflymder yn briodol?

4. Cymraeg

- Pa mor dda fydd yr ysgol yn mynd yn ei blaen i ennill gwobr Campws Cymraeg / Siarter Iaith?
- Os yw'r wobwr wedi'i chyflawni, beth oedd y meysydd mwyaf llwyddiannus i'w ddathlu?
- Os nad yw'r wobwr wedi ei chyflawni eto, beth sydd angen i'r ysgol weithio arno?

5. Cymorth Ysgol

- Pa mor dda mae cymorth a dderbyniwyd gan yr ysgol yn cyd-fynd â blaenoriaethau allweddol yn y CDY?
- Beth sydd wedi ei wneud fel rhan o'r cymorth i ysgolion? Sut mae'r cymorth hwn yn mynd yn ei flaen?
- Beth yw effaith y cymorth wedi bod ar ddysgu / darpariaeth / arweinyddiaeth?
- A oes unrhyw gwestiynau neu faterion wedi eu hamlygu y byddech am eu harchwilio o ran y cymorth a ddarperir?
- Pa feysydd sydd wedi derbyn cymorth, pam y maent wedi derbyn y cymorth hwn a sut maen nhw'n symud ymlaen?

- Gyda phwy mae'r ysgol wedi ymgysylltu? Sut mae hyn yn helpu gyda chynnydd mewn blaenoriaethau a'r meysydd llwyddiant?
- A oes unrhyw faterion yn cael eu hamlygu y byddech chi am eu harchwilio am yr ymgysylltu hwn?

4. System hunan-wella

- Sut mae'r ysgol yn cyfrannu at weithio rhanbarthol? Os yw'n cyfrannu, pa fuddion mae hynny'n eu cyflwyno i'ch ysgol? Oes gennych chi unrhyw feysydd gallech chi gyfrannu atynt fel ysgol?

5. Cydweithio

- A ydych yn ymwybodol o waith cydweithredol a wnaed gan yr ysgol?
- Beth fu effaith unrhyw gydweithio?

6. Ymgysylltu mewn Dysgu Proffesiynol (DP)

- Sut mae'r ysgol yn sicrhau bod staff yn cael eu datblygu a'u cefnogi i wella eu harferion?
- Faint o staff yr ysgol sydd wedi bod yn rhan o'r DP sydd ar gael gan Gonsortiw Canolbarth y De?
- Os nad yw'r ysgol wedi cymryd rhan yn DP gan Gonsortiw Canolbarth y De - pam lai?
- A yw staff hefyd yn cymryd rhan mewn DP a gynigir gan sefydliadau eraill?
- Sut mae effaith DP yn cael ei mesur?
- Sut mae'r ysgol yn sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i barhau i ddabtygu a gwella eu harferion?
- A yw rheoli perfformiad yn cael ei ddefnyddio fel modd o adnabod anghenion DP staff?

7. Crynodeb Ysgol Tymhorol: Defnydd Posibl

Cwestiynau ychwanegol i'w hystyried

- A oes unrhyw wybodaeth arall gan Gonsortiw Canolbarth y De y byddech yn gwerthfawrogi cael ei chynnwys mewn fersiynau o'r CYT yn y dyfodol?
- Oes unrhyw faterion yr hoffech eu trafod neu eu codi gyda phartner gwella'r ysgol?

Vale of Glamorgan Schools Welsh Language Centre

A Welsh Language Centre, has been established at Ysgol Gwaun y Nant, Barry, to provide a Welsh language immersion opportunity for year 1 - 6 pupils living in the Vale of Glamorgan.

The Centre welcomed the first cohort of learners in February 2022, and following 12 weeks of language immersion, the children started full-time at Welsh-medium schools, fully equipped to succeed in their Welsh-medium education journey.

The Welsh Language Centre has since continued to provide late Welsh language immersion education for other learners new to the language. The Centre has also been providing support to learners identified by their teachers at Welsh-medium schools as those who require support to increase their understanding, use and enjoyment of Welsh language.

Over the past year, over a 100 pupils have benefitted from the Welsh language immersion education provided at the Centre, contributing greatly towards Cymraeg 2050's aim to 'create a statutory education system which increases the number of confident Welsh speakers'.

Parent Feedback

"Thank you very much for giving **** a happy, positive and unforgettable experience at the Welsh Language Centre. We are extremely grateful to you for your hard work. Hearing **** speak Welsh confidently is a dream come true for us."

"They have been very lucky to have had your attention for the last couple of months."

For more information please contact us.

Enfys Owen, Teacher and Leader
01446 421723
owene533@hwbcymru.net



Canolfan Iaith Gymraeg Ysgolion Bro Morgannwg

Mae Canolfan Iaith Gymraeg, wedi ei sefydlu yn Ysgol Gwaun y Nant, y Barri, er mwyn darparu addysg trochi iaith i ddisgyblion blwyddyn 1 - 6 sydd yn byw ym Mro Morgannwg.

Croesawodd y ganolfan eu carfan gyntaf o ddysgwyr ym mis Chwefror 2022. Yn dilyn 12 wythnos o drochi iaith, dechreuodd y plant yn llawn amser mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gyda'r sgiliau a'r gallu i lwyddo ar eu taith drwy addysg gyfrwng Gymraeg.

Ers hynny, mae'r Ganolfan Gymraeg wedi parhau i ddarparu addysg drochi hwyr i ddysgwyr sy'n newydd i'r iaith. Darperir cefnogaeth yn y Ganolfan hefyd i ddysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n elwa o gefnogaeth y Canolfan Gymraeg, i gynyddu eu dealltwriaeth, eu defnydd a'u mwynhad o'r Gymraeg.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae dros 100 o ddisgyblion wedi elwa o addysg drochi yn y Gymraeg yn y ganolfan, gan gyfrannu felly tuag at nod Cymraeg 2050 i 'greu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus'.

Adborth Rhieni

"Diolch yn fawr am roi profiad hwylus, hapus, positif a bythgofiadwy i **** yn y Ganolfan Iaith. Rydym yn hynod ddiolchgar i chi am eich gwaith called. Mae clywed **** yn siarad Cymraeg yn hyderus yn gwireddu breuddwyd i ni."

"Maen nhw wedi bod yn lwcus iawn o fod wedi cael eich sylw am yr ychydig fisoedd diwethaf."

Os hoffech rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Enfys Owen, athrawes ac arweinydd y Ganolfan Iaith.

01446 421723

owene533@hwbcymru.net






Canolfan Iaith Gymraeg.



Dathlu Diwrnod Santes Dwywfen, Chwefror 2023.



Chwarae rôl mewn cymeriad, Hugan Fach Goch.



Chwarae rôl mewn cymeriad, meddygon yn gofalu am gleifion.

Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2022-24

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

Rhif	Teitl	Blaenly thyren	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfo
2	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Gynradd Romilly
3	Cllr Mr	A	Hennessey	Ysgol Gynradd y Rhws
4	Mrs	C	Hunt	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Nicholas
5	Mrs	S	Jenkins	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrews ac Ysgol Gyfun St Cyres
6	Cllr Mrs	J	Lynch-Wilson	Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr
7	Mrs	A	Malkin	Ysgol Gynradd Gladstone
8	Dr	M	Price	Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn
9	Mr	D	Treharne	Ysgol Gynradd Llansanwyr C/W
10	Mrs	T	Vaughan-Taylor	Ysgol Gyfun y Bont-faen
11	Mr	O	Williams	Ysgol Sant Baruc
12	Cllr Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria
13	Swydd Wag			
14	Swydd Wag			
15				
Tymhorau swydd Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr (PGRs)				
Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Cynradd - Lucy Barrowclough - Ysgol Gynradd Llandochoaul				
Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Uwchradd - Ghislaine van de Burgt - Whitmore High School				



Gwasanaeth Cwnsela yn yr Ysgol a'r Gymuned Bro Morgannwg (VSCBCS)



Roedd dull ysgol gyfan tuag at gefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, yn un o brif nodweddion argymhellion adroddiad Cadernid Meddwl Cymru 2018.

Yn cael ei gomisiynu gan Awdurdod Lleol Bro Morgannwg ers 2016, gan weithredu allan o 8 prif ysgol uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion ar draws y Fro gan gynnwys darpariaeth ar gyfer blwyddyn gynradd 6. Mae Barnardo's wedi bod yn cefnogi lles emosiynol ac anghenion iechyd meddwl pobl ifanc yn yr ysgol ac yn y gymuned. Yn ofyniad gan Lywodraeth Cymru, comisiynir y gwasanaeth yn annibynnol, mae ein holl gwrselwyr wedi cymhwyso ac yn brofiadol iawn ac yn gweithio'n agos gydag adrannau lles ysgolion a chysylltiadau diogelu, er mwyn sicrhau bod



Model Cyflawni nodweddiadol;

We provide short term, solution focussed interventions to include an assessment and up to 6 counselling sessions. The approach of the counsellors is for sessions to be client led and person centred, ensuring the autonomy of the Young Person. Counselling is a talking therapy but within these sessions, counsellors might invite the Young Person to use creative resources too.

The majority of sessions are conducted face-to-face, however, Young People can request to have remote, digital sessions via telephone, ZOOM, TEAMS or WhatsApp video.

Mae data cymharol cwnsela ar draws Cymru gyfan ar gael; **Cwnsela i blant a phobl ifanc: Medi 2020 i Awst 2021 | LLYW.CYMRU**

Yn ystod 2020 – 2021 fe ofynnodd dros 506 o ddisgyblion rhwng 10-19 oed am gymorth therapiwtig ar draws y Fro, gyda bron i 3000 o sesiynau cwnsela yn cael eu cynnig. Cefnogwyd y disgyblion i ddeall yn well eu teimladau a'u hymddygiad anodd, datblygu gwell sgiliau ymdopi a gwydnwch. Mae'r gwasanaeth wedi rhoi cefnogaeth a chyngor i staff ysgolion ac wedi cefnogi atgyfeiriadau ymlaen pan fo hynny'n briodol.

Am fwy o wybodaeth neu i gwblhau atgyfeiriad diogel, ar-lein i'n gwasanaeth, ewch i'n gwefan www.schoolbasedcounselling.co.uk